

Arolygiad o Ddarparwr Gofal Iechyd Annibynnol (Ile rhoddwyd rhybudd) Rejuva Laser and Skin Clinic

Dyddiad yr Arolygiad: 25 Hydref 2016

Dyddiad Cyhoeddi: 26 Ionawr 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth. Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

**Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ**

Neu drwy

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: hiw@wales.gsi.gov.uk
Ffacs: 0300 062 8387
Gwefan: www.agic.org.uk

Cynnwys

1.	Cyflwyniad.....	2
2.	Methodoleg	3
3.	Cyd-destun.....	4
4.	Crynodeb	5
5.	Canfyddiadau	6
	Ansawdd profiad y claf	6
	Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol	8
	Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth	11
6.	Y Camau Nesaf.....	13
	Atodiad A.....	14

1. Cyflwyniad

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol yr holl ofal iechyd yng Nghymru.

Mae prif bwyslais AGIC ar y canlynol:

- Gwneud cyfraniad at y gwaith o wella diogelwch ac ansawdd gwasanaethau gofal iechyd yng Nghymru
- Gwellu profiad dinasyddion o ofal iechyd yng Nghymru boed hynny fel claf, defnyddiwr gwasanaeth, gofalwr, perthynas, neu gyflogai
- Atgyfnerthu llais cleifion a'r cyhoedd yn y modd y caiff gwasanaethau iechyd eu hadolygu
- Sicrhau bod gwybodaeth amserol, ddefnyddiol, hygyrch a pherthnasol am ddiogelwch ac ansawdd gofal iechyd yng Nghymru ar gael i bawb.

Bydd arolygiadau AGIC o wasanaethau gofal iechyd annibynnol yn ceisio sicrhau bod gwasanaethau'n cydymffurfio â Deddf Safonau Gofal 2000 a gofynion Rheoliadau Gofal Iechyd Annibynnol (Cymru) 2011, a sefydlu sut mae gwasanaethau'n bodloni'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru.¹

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein canfyddiadau yn dilyn arolygiad o wasanaeth gofal iechyd annibynnol. Mae AGIC yn gyfrifol am gofrestru ac arolygu gwasanaethau gofal iechyd annibynnol yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys ysbytai annibynnol, clinigau annibynnol, ac asiantaethau meddygol annibynnol.

Rydym yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ein hadroddiadau arolygu o dan dair thema:

- Ansawdd profiad y claf
- Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol
- Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth.

¹ Cafodd y Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Gofal Iechyd Annibynnol yng Nghymru eu cyhoeddi ym mis Ebrill 2011. Diben y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yw sicrhau bod cleifion a phobl sy'n dewis gofal iechyd preifat yn cael sicrwydd bod y gwasanaethau maent yn eu derbyn yn ddiogel ac o ansawdd da. <http://www.hiw.org.uk/rheoleiddio-gofal-iechyd>

2. Methodoleg

Yn ystod yr arolygiad, rydym yn casglu gwybodaeth o nifer o ffynonellau, gan gynnwys:

- Gwybodaeth a gedwir gan AGIC
- Cyfweiliadau â staff (lle bo hyn yn briodol) a rheolwr cofrestredig y gwasanaeth
- Sgyrsiau â chleifion a pherthnasau (lle y bo'n briodol)
- Archwilio sampl o gofnodion cleifion
- Archwilio polisïau a gweithdrefnau
- Archwilio'r offer a'r amgylchedd
- Gwybodaeth yn natganiad o ddiben y gwasanaeth, ei ganllaw i gleifion, a'i wefan (lle bo hynny'n berthnasol)
- Holiaduron cleifion AGIC a gwblhawyd cyn yr arolygiad.

Ar ddiwedd pob arolygiad, rydym yn cynnig trosolwg o'n prif ganfyddiadau i gynrychiolwyr y gwasanaeth er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn adborth priodol.

Hysbysir darparwr cofrestredig y gwasanaeth am unrhyw bryderon brys a allai godi o arolygiad drwy gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio.² Bydd unrhyw ganfyddiadau o'r fath yn cael eu nodi, ynghyd ag unrhyw welliannau eraill sydd eu hangen, yn Atodiad A yr adroddiad arolygu.

Mae arolygiadau'n cynnig cipolwg o ba mor dda mae gwasanaethau yn bodloni safonau a rheoliadau hanfodol o ran diogelwch ac ansawdd ar ddiwrnod yr arolygiad.

² Fel rhan o broses diffyg cydymffurfio a gorfodi AGIC ar gyfer gofal iechyd annibynnol, bydd hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio yn cael ei gyflwyno mewn achos lle mae diffyg cydymffurfio rheoleiddiol yn fwy difrifol ac yn perthyn i ganlyniadau gwael a methiannau systemig. Achosion o'r fath fydd rhai lle mae canlyniadau gwael i bobl (oedolion neu blant) sy'n defnyddio'r gwasanaeth, a lle mae methiannau'n arwain at danseilio hawliau pobl. Mae copi o broses cydymffurfiaeth AGIC ar gael ar gais.

3. Cyd-destun

Mae Rejuva Laser and Skin Clinic wedi'i gofrestru fel ysbyty annibynnol am ei fod yn darparu triniaethau laser Dosbarth 3B/4 a Thechnoleg Golau Pwls Dwys (IPL)³ yn Fondella Buildings, Ffordd Fawr, Rhuddlan, Sir Ddinbych, LL18 2TU. Cofrestrwyd y gwasanaeth gyntaf yn 2014.

Ar adeg yr arolygiad, roedd y tîm staff yn cynnwys y rheolwr cofrestredig a phedwar gweithredwr laser. Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i ddarparu'r triniaethau canlynol i gleifion dros 18 mlwydd oed:

System golau pwls dwys *Ellipse* ar gyfer y triniaethau canlynol:

- Gwaredu blew
- Adfywio'r croen
- Therapi acne
- Therapi pigmentiad
- Triniaeth gwythiennau edau

³ Mae golau pwls dwys yn dechnoleg ffynhonnell olau sbectrwm eang sy'n cael ei defnyddio gan ymarferwyr meddygol a chosmetig i berfformio triniaethau croen amrywiol at ddibenion esthetig a therapiwtig.

4. Crynodeb

Yr hyn y mae'r gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Rhoddwyd digon o wybodaeth i gleifion wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.
- Mae'r gwasanaeth yn ymroddedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion.

Yr hyn y mae angen ei wneud i wella'r gwasanaeth:

- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiâu a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd a'u bod yn nodi'r fersiwn a dyddiadau adolygu.
- Dylai'r holl staff lofnodi a dyddio'r polisiâu a gweithdrefnau i gadarnhau eu bod yn eu deall ac yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau.
- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser fynychu cwrs hyfforddi perthnasol mewn diogelu oedolion sy'n agored i niwed.
- Mae angen i'r rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser fynychu'r cwrs hyfforddi 'Craidd Gwybodaeth'.

Nodir manylion pellach ynglŷn â'r gwelliannau hyn yn Atodiad A.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen rhai gwelliannau o ran y trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu ar gyfer y gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau a safonau perthnasol. Mae hyn yn bwysig i sicrhau diogelwch ac effeithiolrwydd y gwasanaeth a ddarperir.

Er nad yw ein canfyddiadau, ar yr achlysur hwn, wedi arwain at gyflwyno hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio, mae disgwyl i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn. Gallai methu â gwneud hynny arwain at gamau gweithredu gan AGIC am ddiffyg cydymffurfio â'r rheoliadau.

5. Canfyddiadau

Ansawdd profiad y claf

Gwybodaeth a chaniatâd cleifion (Safon 9)

Gwelsom dystiolaeth i ddangos bod cleifion yn derbyn digon o wybodaeth i wneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â'u triniaeth.

Dywedwyd wrthym fod cleifion yn cael ymgynghoriad llafar cyn cael triniaeth, sy'n cynnwys trafodaethau am risgiau a manteision y driniaeth. Gofynnwyd i gleifion roi caniatâd ysgrifenedig ar gyfer eu triniaeth, a gwelsom enghreifftiau o wybodaeth a chanllawiau gofal dilynol a roddwyd i gleifion.

Gwelsom y gofynnwyd i gleifion gwblhau ffurflenni hanes meddygol a chafodd unrhyw ddiweddariadau neu newidiadau eu gwirio ym mhob apwyntiad.

Gwelsom fod cofnod triniaethau yn cael ei gynnal ac yn gyfredol, ond gwelsom nad oedd lle i gofnodi unrhyw effeithiau niweidiol, ond rhoddwyd manylion o'r fath effeithiau yn rhan arall o gofnodion unigol y cleifion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylid cynnwys manylion ynghylch unrhyw effeithiau niweidiol yn y cofnod triniaethau.

Cyfathrebu'n effeithiol (Safon 18)

Roedd canllaw i gleifion ar gael ac roedd yn cynnwys y wybodaeth ofynnol yn unol â'r rheoliadau.

Roedd datganiad o ddiben ar gael ac roedd hwn yn cynnwys y wybodaeth berthnasol am y gwasanaeth a oedd yn cael ei gynnig. Fodd bynnag, canfuom nad oedd y datganiad o ddiben yn cynnwys dyddiad i ddangos pryd y cafodd ei ysgrifennu, ei adolygu a/neu ddyddiad yr adolygiad.

Yr hyn y mae angen ei wella

Yn unol â'r rheoliadau, mae'n rhaid i'r datganiad o ddiben gynnwys y dyddiad y cafodd ei ysgrifennu ac unrhyw ddyddiadau adolygu dilynol.

Rhaid anfon copi o'r datganiad o ddiben wedi ei ddiweddarau at AGIC.

Ymgysylltu â dinasyddion a chael adborth (Safon 5)

Gwelsom fod gan y clinig system ar waith ar gyfer ceisio adborth gan y cleifion fel ffordd o fonitro ansawdd y gwasanaeth a oedd yn cael ei ddarparu. Roedd y cleifion yn gallu darparu adborth trwy holiaduron y cleientiaid, y cyfryngau cymdeithasol, neu drwy wefan y gwasanaeth ei hun. Roedd hefyd yn bosibl gwneud sylwadau a rhoi adborth yn ddiennw. Dywedodd y clinig wrthym eu bod yn adolygu'n rheolaidd yr holl sylwadau a dderbynnir a, lle bo'n briodol, maent yn ymateb i gleifion yn bersonol.

Cyn yr arolygiad, gofynnwyd i'r clinig ddsbarthu holiaduron AGIC er mwyn cael barn cleifion am y gwasanaethau a ddarperir. Yn anffodus, ni ddychwelwyd unrhyw holiaduron AGIC atom ac nid ydym o'r herwydd yn gallu adrodd am safbwyntiau'r cleifion yn sgil yr ymweliad hwn.

Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

Gofal diogel a chlinigol effeithiol (Safon 7) a dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol (Safon 16)

Ar ddiwrnod yr arolygiad, nid oeddem yn gallu gweld unrhyw dystysgrifau i ddangos bod gan y rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser hyfforddiant Craidd Gwybodaeth⁴ cyfredol. Gwelsom dystysgrifau i ddangos bod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant ar ddefnyddio'r peiriant laser yn ddiogel.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl weithredwyr laser yn cwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyfredol.

Gwelsom fod contract cyfredol ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, ac roedd rheolau lleol gyda manylion ynglŷn â gweithredu'r peiriant yn ddiogel. Roedd y rheolau hyn wedi cael eu hadolygu'n ddiweddar gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, a gwelsom eu bod wedi cael eu llofnodi gan y rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser, a oedd yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r rheolau ac yn cytuno i'w dilyn.

Roedd polisi rheoli risg ar gael i ni ei weld ar ddiwrnod yr arolygiad; fodd bynnag, nid oedd yn cynnwys dyddiad adolygu a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i gynnwys hwn.

Roedd yr asesiadau risg amgylcheddol wedi cael eu hadolygu ym mis Hydref 2016 gan y Cynghorydd Diogelu rhag Laserau, a gwelsom gadarnhad nad oedd unrhyw newidiadau yn ofynnol a bod yr holl gamau wedi cael eu cynnal.

Gwelsom fod cyfarpar diogelu llygaid ar gael i gleifion a'r gweithredwyr laser. Roedd y cyfarpar diogelu llygaid mewn cyflwr addas yn ôl pob golwg.

Dywedwyd wrthym fod y peiriant wedi cael ei raddnodi a'i wasanaethu'n ddiweddar i sicrhau ei fod yn ddiogel i'w ddefnyddio, a gwelwyd y dystysgrif i gadarnhau hyn.

Roedd arwydd y tu allan i'r ystafell driniaeth a oedd yn dangos pan oedd y peiriant laser/golau pwls dwys yn cael ei ddefnyddio. Gwnaeth y rheolwr cofrestredig

⁴ Mae'r hyfforddiant Craidd Gwybodaeth ar gyfer gweithredwyr sy'n defnyddio laserau a systemau golau pwls dwys ar gyfer triniaethau croen amrywiol. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys gwybodaeth a chanllawiau ar ddefnyddio laserau a systemau golau pwls dwys yn ddiogel.

gadarnhau hefyd bod drws yr ystafell driniaeth ar glo pan mae'r peiriant yn cael ei ddefnyddio er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Mae'r peiriant yn cael ei gadw'n ddiogel ar bob amser am ei fod ond yn gallu cael ei actifadu gan gyfrinair sy'n hysbys i'r gweithredwyr laser yn unig.

Ni welwyd unrhyw brotocolau meddygol ar gyfer y peiriant laser/golau pwls dwys ar ddiwrnod ein hymweliad; fodd bynnag, yn dilyn ein harolygiad anfonwyd y rhain at AGIC ac roeddent wedi cael eu llofnodi gan ymarferydd meddygol arbenigol.

Diogelu plant ac oedolion sy'n agored i niwed (Safon 11)

Mae'r gwasanaeth wedi'i gofrestru i drin cleifion dros 18 mlwydd oed yn unig. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig fod y gwasanaeth yn cydymffurfio â hyn.

Esboniodd y rheolwr cofrestredig y modd y byddai'r gwasanaeth yn ymdrin ag unrhyw faterion o ddiogelu oedolion ac roedd polisi diogelu ar waith gan ddarparu gweithdrefnau eglur i'w dilyn pe bai pryder yn ymwneud â diogelu. Gwnaethom gynghori bod angen i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser fynychu hyfforddiant diogelu oedolion.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser fynychu hyfforddiant diogelu oedolion.

Atal a rheoli heintiau a dadheintio (Safon 13)

Gwelsom fod y gwasanaeth yn lân ac yn daclus iawn. Gwnaethom drafod y trefniadau rheoli heintiau a oedd ar waith â'r gweithredwr laser, ac roeddem o'r farn eu bod yn briodol ar gyfer amddiffyn cleifion rhag croes-heintio. Roedd gweithdrefnau rheoli heintiau wedi eu cynnwys yn y protocol triniaeth.

Mae gwastraff clinigol yn cael ei waredu'n briodol a gwelsom fod gan y gwasanaeth gontract ar waith gyda chwmni cludo gwastraff cymeradwy.

Rheoli risg ac iechyd a diogelwch (Safon 22)

Gwelsom dystiolaeth bod profion offer cludadwy wedi cael eu cynnal i helpu i sicrhau bod dyfeisiau trydanol bach yn ddiogel i'w defnyddio. Gwelsom dystiolaeth hefyd bod gwiriad o wifrau trydanol yr adeilad wedi cael ei gynnal o fewn y pum mlynedd diwethaf. Nid oedd y dystysgrif nwy ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad ond mae wedi cael ei hanfon at AGIC er hynny i dystio bod gwiriad diogelwch nwy wedi cael ei gynnal yn ddiweddar.

Gwnaethom archwilio rhai o'r trefniadau ar gyfer diogelwch tân. Dangosodd labeli gwasanaethu ar y diffoddwyr tân eu bod yn cael eu gwasanaethu'n flynyddol, ac roedd arwyddion ar gyfer yr allanfeydd tân. Fodd bynnag, nid oedd asesiadau risg ar waith a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i ddatblygu'r rhain a rhoi copi i AGIC.

Yr hyn y mae angen i wella

Mae angen datblygu asesiadau risg tân a'u hanfon at AGIC.

Nid oedd ymarfer tân wedi cael ei gynnal a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig am bwysigrwydd cynnal ymarferion tân blynyddol gan sicrhau bod yr holl staff yn hollol gyfarwydd â'r gweithdrefnau.

Roedd pecyn cymorth cyntaf brys ar gael yn y dderbynfa ac roedd o leiaf un aelod o staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf.

Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd (Safon 1)

Gwnaethom archwilio sampl o bolisiau a gweithdrefnau a oedd ar waith yn y gwasanaeth. Nid oedd yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n nodi'r fersiwn neu ddyddiad adolygu, a gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig am yr angen i wneud felly a sicrhau bod y rhain yn cael eu hadolygu bob tair blynedd. Gwnaethom nodi hefyd nad oedd tystiolaeth bod y staff wedi darllen unrhyw bolisiau a gweithdrefnau ers eu sefydlu a gwnaethom gynghori'r rheolwr cofrestredig i sicrhau bod y staff yn llofnodi i gadarnhau eu bod wedi darllen a deall y rhain ar brydiau perthnasol.

Yr hyn y mae angen i wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisiau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu bob tair blynedd a'u bod yn nodi'r fersiwn a dyddiadau adolygu, ynghyd â llofnodion y staff.

Dywedodd y rheolwr cofrestredig wrthym fod y tîm yn cwrdd yn wythnosol i asesu a monitro ansawdd y gwasanaeth a ddarperir; fodd bynnag, mae'r cyfarfodydd hyn yn anffurfiol ac nid oedd cofnod yn cael ei gadw. Gwnaethom hysbysu'r rheolwr cofrestredig am bwysigrwydd cadw cofnodion o'r cyfarfodydd hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu nodi a'u cofnodi.

Dywedwyd wrthym gan y rheolwr cofrestredig fod llinellau atebolrwydd eglur yn y gwasanaeth ac mae'r staff yn glir o'u swyddogaethau a chyfrifoldebau.

Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig nad oes rhaglen arfarnu flynyddol ar gyfer y staff ac rydym yn argymhell bod y rheolwr cofrestredig yn sicrhau bod arfarniadau blynyddol ffurfiol yn cael eu rhoi ar waith.

Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen arfarnu flynyddol yn cael ei rhoi ar waith ar gyfer yr holl staff.

Ymdrin â phryderon a rheoli digwyddiadau (Safon 23)

Gwelsom fod gan y gwasanaeth bolisi cwynion ar waith ac roedd yn darparu manylion cyswllt cywir AGIC yn unol â'r gofynion rheoleiddiol. Roedd manylion o'r

weithdrefn gwyno hefyd wedi cael eu cynnwys yn y datganiad o ddiben. Ar adeg yr arolygiad, ni dderbyniwyd unrhyw gŵynion, sylwadau neu adborth gan gleifion. Pe bai cwyn yn cael ei derbyn, byddai hyn yn cael ei gofnodi'n electronig.

Rheoli cofnodion (Safon 20)

Canfuom fod gwybodaeth am gleifion yn cael ei chadw'n ddiogel yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd bod cofnodion papur yn cael eu cadw mewn cypyrddau ffeilio a chadarnhaodd y rheolwr cofrestredig eu bod yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Dim ond y rheolwr cofrestredig, y gweithredwyr laser a'r derbynnydd oedd â mynediad at y cofnodion.

Recriwtio i'r gweithlu ac arferion cyflogaeth (Safon 24)

Roedd gan y rheolwr cofrestredig a'r gweithredwyr laser wiriadau manylach y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith.

O ystyried canfyddiadau'r arolygiad hwn, mae angen gwneud rhywfaint o welliannau i drefniadau sicrwydd ansawdd a llywodraethu'r gwasanaeth hwn i sicrhau cydymffurfiaid parhaus â'r rheoliadau a safonau perthnasol.

Mae gweithredu trefniadau sicrhau ansawdd a llywodraethu cadarn, ac ymateb prydlon gan y darparwr cofrestredig wrth ddatrys problemau, yn arwyddion pwysig o allu darparwr i redeg ei wasanaeth gyda gofal, cymhwysedd a sgîl digonol. Mae disgwyl, felly, i'r rheolwr cofrestredig gymryd camau ystyrlon i roi sylw i'r materion hyn, oherwydd gallai methu â gwneud hynny olygu y bydd AGIC yn cymryd camau am beidio â chydymffurfio â'r rheoliadau.

6. Y Camau Nesaf

Mae'r arolygiad hwn wedi arwain at yr angen i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella o ran y gwelliannau a nodwyd yn yr adroddiad hwn. Gellir gweld manylion hyn yn Atodiad A'r adroddiad hwn.

Dylai'r cynllun gwella nodi'n glir sut y rhoddir sylw i'r gwelliannau a nodwyd yn Rejuva Laser and Skin Clinic, gan gynnwys amserlenni.

Bydd y cynllun gwella, unwaith y cytunir arno, yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGIC, ac fe gaiff ei werthuso fel rhan o'r broses arolygu barhaus.

Atodiad A

Cynllun Gwella

Gwasanaeth: Rejuva Laser and Skin Clinic

Dyddiad yr arolygiad: 25 Hydref 2016

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Ansawdd profiad y claf					
Tudalen 6	Dylid cynnwys manylion ynghylch unrhyw effeithiau niweidiol yn y cofnod triniaethau.	Rheoliad 23 (1)	Cwblhawyd Hydref 2016.		
Tudalen 6	Mae'n rhaid i'r datganiad o ddiben gynnwys y dyddiad y cafodd ei ysgrifennu ac unrhyw ddyddiadau adolygu dilynol, yn unol â'r rheoliadau. Rhaid anfon copi o'r datganiad o	Rheoliad 6 (1) ac Atodlen 1	Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2017.		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	ddiben wedi'i ddiweddarau at AGIC.				
Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol					
Tudalen 8	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser gwblhau hyfforddiant Craidd Gwybodaeth cyfredol.	Rheoliad 45 (3) Safon 25 MHRA 3 (9)	Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2017.		
Tudalen 9	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig a'r holl weithredwyr laser fynychu hyfforddiant diogelu oedolion.	Rheoliad 16 Safon 11	Bydd cwrs amddiffyn oedolion sy'n agored i niwed wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2017.		
Tudalen 9	Mae angen datblygu asesiadau risg tân a'u hanfon at AGIC.	Rheoliad 19	Bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2017.		
Ansawdd staffio, rheolaeth ac arweinyddiaeth					
Tudalen 11	Mae angen i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau'n cael eu hadolygu	Rheoliad 9	Cwblhawyd mis Rhagfyr 2016.		

Rhif y dudalen	Yr hyn y mae angen ei wella	Rheoliad / Safon	Camau gweithredu'r gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
	bob tair blynedd a'u bod yn nodi'r fersiwn a dyddiadau adolygu, ynghyd â llofnodion staff.				
Tudalen 11	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod rhaglen arfarnu flynyddol ar gyfer y staff yn cael ei rhoi ar waith.	Rheoliad 20 (2) Safon 25	Bydd arfarniadau blynyddol yn digwydd ym mis Chwefror yn flynyddol.		
Tudalen 11	Mae'n rhaid i'r rheolwr cofrestredig sicrhau bod yr holl gyfarfodydd tîm yn cael eu nodi a'u cofnodi.	Rheoliad 19	Mae'r holl gyfarfodydd bellach yn cael eu cofnodi ac mae camau gweithredu gofynnol yn cael eu nodi.		

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (llythrennau bras): Jacqueline Burham

Teitl: Cyfarwyddwr y cwmni

Dyddiad: 10 Ionawr 2017